



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Cyfarfod: Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu
Lleoliad: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi
Sant, Campws Llanbedr Pont Steffan
Dyddiad: 6 Awst 2019
Amser: 10:00 – 14:15



<u>Aelodau:</u>	Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh) Y Prif Gwnstabl Mark Collins (MC) Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) Mrs Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (BP)
<u>Hefyd yn Bresennol:</u>	Y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Claire Parmenter (DBG/DD) Y Prif Uwch-arolygydd Steve Cockwell (SC) Chris Neve, Swyddog Staff (CN) Mrs Emma Northcote, Adran Gyfathrebu'r Heddlu (EN) Mr Ben Cole, Swyddog Cyfathrebiadau Digidol (BC) Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH)
<u>Arsylwyr:</u>	Aelodau o Banel Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys: Y Cynghorydd Lloyd Edwards Y Cynghorydd Keith Evans Y Cynghorydd Ian Roffe Mr Steffan Chambers, Myfyriwr gyda SCHTh (SC) Miss Cerys Morgan, Myfyriwr gyda SCHTh (CM) Miss Cerys Rees, Myfyriwr gyda SCHTh (CR)
<u>Ymddiheuriadau:</u>	Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Vicki Evans (PGC/DD) Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Ariannol (CA)

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 07/05/2019

Rhif y Cam Gweithredu	Crynodeb o'r Cam Gweithredu	I'w symud yn ei flaen gan
PAB 122	Y DBG/DD i roi crynodeb i'r CHTh o bob achos cwyn dros 180 diwrnod gwaith.	Cwblhawyd
PAB 123	AHGTAEM i ymddangos fel eitem dreigl ar agenda'r Bwrdd Plismona er mwyn rhoi cyfle i brif swyddogion ddiweddarau SCHTh am gynnydd HDP o ran cwblhau argymhellion a wnaed gan AHGTAEM.	Cwblhawyd
PAB 124	Alison Perry o SCHTh i eistedd ar Grŵp Aur Cam-drin Domestig yr Heddlu.	Cwblhawyd
PAB 125	Yr Heddlu i roi diweddariad pellach ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiadau craffu dwys	Cwblhawyd

	erbyn mis Medi 2019.	
--	-----------------------------	--

CRYNODEB O BENDERFYNIADAU CYFARFOD 06/08/2019		
Rhif y Penderfyniad	Crynodeb o'r Penderfyniad	
PAB T2 011	Cytunodd y CHTh a'r PG ar yr aillysgrifeniad arfaethedig o Adran 22A o'r Cytundeb Cartref Ar-lein Sengl.	

1 – Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau

2 – Trafodaethau gydag Aelodau o'r Cyhoedd

3 – Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Mai

Rhoddodd y DBG/DD ddiweddariad ynghylch camau gweithredu blaenorol Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu (BAH):

PAB 122 – Dywedodd y DBG/DD mai dim ond 3 achos cwyn sydd wedi para mwy na 180 diwrnod. Achosion etifeddiaeth yw pob un ohonynt. Mae'r DBG yn cwrdd â Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP) yn rheolaidd ac yn cael diweddariadau ynghylch cynnydd.

PAB 123 – Rhoddwyd gwybod i'r CHTh fod Heddlu Dyfed-Powys (HDP) mewn cysylltiad rheolaidd â chynrychiolwyr o Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) er mwyn sicrhau cynnydd yn erbyn argymhellion a osodwyd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys (HDP) gan AHGTAEM. Dywedodd y DBG/DD fod HDP wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan AHGTAEM ar ôl iddynt gyflwyno eu Datganiad Rheoli'r Heddlu (DRhH). Nodwyd hefyd bod HDP wedi defnyddio'r arf rheoli graddau CAG (coch, ambr, gwyrdd) i ddatblygu argymhellion er mwyn canolbwyntio sylw HDP ar feysydd perygl uwch. Ar hyn o bryd, mae 5 argymhelliad coch, 6 argymhelliad ambr, a 27 argymhelliad gwyrdd.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai, ar wahân i rai diwygiadau mân sydd angen eu gwneud.

4 – Cylch Gorchwyl Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu

Dywedodd y PS fod SCHTh yn cynnal adolygiad o'i threfniadau llywodraethu ei hun. Canlyniad yr adolygiad yw fersiwn ddiwygiedig o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Nodwyd y byddai pump o amcanion y Cynllun Heddlu a Throseddu nawr yn cael eu trafod yn y Bwrdd Plismona yn hytrach na Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Gydag argymhellion ar gyfer ambell fân ddiwygiad, cytunodd y Bwrdd i'r Cylch Gorchwyl newydd.

Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd i'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.

5 – Adroddiad Perfformiad yr Heddlu ar gyfer Chwarter 1

Cychwynnodd y CHTh y drafodaeth drwy gydnabod y datganiad ar dudalen 3 o'r adroddiad bod craffu ar yr Adroddiad Perfformiad yng nghyd-destun HDP yn parhau i gofnodi'r cyfraddau trosedd isaf fesul 1000 o'r boblogaeth o'i gymharu â phob heddlu arall yng Nghymru a Lloegr.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at Fodlonrwydd Dioddefwyr. Holodd y CHTh pam y bu cwmp amlwg yn nifer yr arolygon bodlonrwydd dioddefwyr sydd wedi'u cwblhau. Cafodd wybod bod HDP wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth o ran arolygon Cam-drin Domestig, sy'n orfodol erbyn hyn. Tynnodd y CHTh sylw at gysondeb parhaus cyfraddau bodlonrwydd is ar gyfer 'Hysbysu'r Dioddefydd', sy'n sefyll ar 65.6%, a dywedodd fod cyfraddau bodlonrwydd ar gyfer yr un pwnc yn uwch na 70%. Dywedodd y PG bod y dioddefydd yn cael gwybod yn gynnar yn yr ymchwiliad nad oes llwybrau ymholi pellach a'u bod yn fodlon bod yr achos wedi'i gwblhau. Mewn achosion mwy cymhleth sy'n cymryd mwy o amser i'w cau, nid yw'r dioddefydd yn cael ei ddiweddarau'n gyson. Dywedodd y PG a'r Prif Uwch-arolygydd Steve Cockwell fod hyn yn bryder parhaus ar gyfer HDP. Gyda lansiad y system TG DPPI2 ym mis Hydref 2019, nodwyd y byddai dangosfwrdd yn cael ei westeia er mwyn dangos pa ddiodefwyr sy'n disgwyl diweddariadau, gan arwain at ansawdd gwasanaeth gwell. Dywedodd y DBG/DD fod swyddogion yn amharod i hysbysu dioddefwyr pan nad oes llawer o ddatblygiadau yn yr achos, fodd bynnag, roedd Prif Swyddogion yn gweithio i rymuso swyddogion i sicrhau eu bod nhw'n rhoi diweddariadau i ddiodefwyr yn gyson. Holodd KE, aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, pa un ai a oedd yn bosibl cynhyrchu system rheoli data gyda chwymplen er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cadw mewn cysylltiad â diodefwyr, fodd bynnag, dywedodd SC y byddai'n anodd creu cronfa ddata cyffredinol ar gyfer y diben hwn gan fod pob achos yn wahanol.

Dyweddod y PS fod trafodaethau wedi'u cynnal rhwng Comander URS Sir Gaerfyrddin a SCHTh mewn perthynas â chynnal adolygiad craffu dwys i fodlonrwydd dioddefwyr, yn arbennig mewn perthynas â deilliant 16. Dywedodd y PG bod y Prif Swyddogion yn croesawu'r cyfle am graffu annibynnol.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at niferoedd troseddau, gyda'r CHTh yn holi pam fod nifer y troseddau wedi cynyddu o 1500 ym mis Ionawr 2015 i 2500 ym mis Mai 2019. Dywedodd SC y byddai arferion cofnodi data trosedd wedi effeithio ar nifer y troseddau. Nodwyd fod AHGTAEM wedi cynnal archwiliad ar Unplygrwydd Data Trosedd HDP yn 2018. Teimlwyd bod nifer y troseddau gwledig wedi cynyddu hefyd ers lansio'r strategaeth troseddau gwledig ym mis Rhagfyr 2017, sy'n annog gwell ymgysylltiad rhwng Heddlu Dyfed-Powys a chymunedau gwledig a ffermio. Holodd y CHTh pryd oedd disgwyl i lefelau adrodd am droseddau sefydlogi yn dilyn cyfnod o newid cenedlaethol mewn perthynas â chofnodi data trosedd. Roedd y PG yn teimlo bod HDP wedi gwella'r ffordd yr oedd yn cofnodi data sy'n ymwneud â cham-drin domestig ar ôl sefydlu'r ddesg fregusrwydd ym mis Ebrill 2019, fodd bynnag, roedd yn rhagweld y byddai cam-drin a bwlio ar gyfryngau cymdeithasol yn achosi cynnydd yn nifer yr honiadau yn y dyfodol agos. Dywedodd SC fod HDP wrthi'n cynyddu ei allu i ymchwilio i droseddau seiber yn dilyn cynnydd mewn troseddau twyll ar-lein a throseddau eraill sy'n seiliedig ar y we. Holodd yr Athro Ian Roffe pa un ai a fyddai HDP yn ystyried creu ymgyrch ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn y cyfryngau o seiberfwlio. Dywedwyd wrtho fod sawl ymgyrch hysbysebu genedlaethol yn mynd rhagddi a bod sefydliadau megis Get Safe Online yn gweithio er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broblem.

Symudodd y CHTh ymlaen at gyfanswm y troseddau a gofnodwyd, gan nodi bod 12,657 achos o drais yn erbyn y person wedi'u cofnodi yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mehefin 2019. Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn deall y cynnydd o ran trosedd ac adolygu perfformiad. Dywedodd SC bod Comander URS Sir Benfro wedi cael y dasg o adolygu troseddau trefn gyhoeddus a thrais yn erbyn y person yn yr ardal oherwydd y cynnydd aruthrol mewn troseddau o'r fath. Ystyriwyd pa un ai a oedd yr holl dwristiaid a ymwelodd â Sir Benfro dros yr haf wedi arwain at gynnydd yn nifer y troseddau trefn gyhoeddus.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at fyrgleriaethau (busnes a chymuned) a oedd wedi gweld nifer yr achosion a gofnodwyd yn syrthio i tua 60 ym mis Mehefin 2019. Mynegodd y CHTh bryderon nad oedd drwgdybyn yn cael ei adnabod mewn 80% o achosion byrgleriaeth, fodd bynnag, cafodd wybod bod perfformiad HDP yn uwch na'r cyffredin o'i gymharu â'r darlun cenedlaethol, a welodd rhai heddluoedd yn adnabod 2-3% o ddrwgdybiedigion ar gfer byrgleriaeth. Roedd CHTh yn fodlon nad oes problem byrgleriaeth gyda HDP.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at droseddau cyffuriau, gyda'r CHTh yn cychwyn drwy ganmol swyddogion HDP am wneud yr ardal heddlu'n le anghroesawgar ar gyfer llinellau cyffuriau. Nodwyd fod gan Abertawe nifer o linellau cyffuriau, fodd bynnag, roedd HDP wedi gweithredu arferion yn llym, gan atal llinellau cyffuriau rhag sefydlogi yn Nyfed-Powys.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at droseddau'n ymwneud ag arfau peryglus, gyda'r CHTh yn mynegi pryderon bod nifer y troseddau sy'n ymwneud ag arfau peryglus wedi codi'n raddol ers mis Mehefin 2018. Dywedodd SC bod newidiadau i'r ffordd y mae troseddau'n cael eu cofnodi wedi effeithio ar yr hyn sy'n cael ei gategoreiddio fel trosedd meddu ar arfau, gan arwain at y cynnydd yn nifer yr achosion yr adroddir amdanynt. Dywedodd EN ei bod hi a'r PGC/DD wedi adolygu troseddau meddu ar arfau dros y misoedd diwethaf, ac wedi dysgu bod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau'n digwydd mewn cartrefi fel rhan o weithgarwch cam-drin domestig a thrais domestig, yn hytrach na bod cyllyll ac arfau ar y strydoedd yn Nyfed-Powys. Fodd bynnag, pwysleisiodd y PG bod rhai o'r arestiadau a oedd yn gysylltiedig â llinellau cyffuriau wedi arwain at adennill arfau â llafn gan unigolion sy'n rhan o'r gweithgarwch. Nodwyd y byddai Ymgyrch Sceptre, sef ymgyrch genedlaethol ar gyfer annog pobl i gael gwared ar gyllyll yn ddiogel, yn cael ei chynnal dros yr wythnosau nesaf. Dysgodd y Bwrdd y byddai Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn gysylltiedig â hyrwyddo'r amnest gyllyll mewn ysgolion.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at droseddau treisio, gyda'r CHTh yn nodi bod 51.1% o achosion treisio'n arwain at Ganlyniad 16: nid oes cefnogaeth gan y dioddefydd, neu mae'r dioddefydd yn tynnu cefnogaeth yn ôl. Dywedodd SC bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sefydlu pryd mae dioddefwyr yn tynnu eu cefnogaeth yn ôl yn y broses erlyn, a byddai craffu dwys gan SCHTh yn cynorthwyo â sefydlu'r rheswm pam y mae dioddefwyr yn tynnu eu cefnogaeth yn ôl. Nodwyd y byddai'r adroddiad cychwynnol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 29 Tachwedd. Hefyd, dywedodd SC bod sawl adroddiad am drais yn rhai hanesyddol (dros 30 oed), a'u bod ond wedi dod i'r golwg yn ystod achosion domestig lle mae dioddefwyr yn honni eu bod nhw wedi cael eu treisio yn ystod perthynas.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at drais yn erbyn y person, gyda'r CHTh yn nodi bod 254 achos o reolaeth drwy orfodaeth yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mehefin 2019. Er nad oedd y CHTh yn fodlon bod trosedd o'r fath yn digwydd, roedd yn falch bod y drosedd yn cael ei hadnabod a'i datblygu gan HDP ar sawl achos, yn enwedig ar ôl y gynhadledd a gynhaliodd ym mis Mawrth 2017 ar reolaeth drwy orfodaeth er mwyn tynnu sylw at y mater.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at ddadansoddi galw mewn perthynas â galwadau am wasanaeth. Dywedodd y CHTh mai hon oedd yr elfen wannaf o ran perfformiad

gan HDP. Nododd fod 7000 achos i bobl yn rhoi'r gorau i alwad yn ystod 3 mis cyntaf y flwyddyn. Dywedodd y PG bod y rhan fwyaf o alwadau 999 yn cael eu hateb o fewn 6 eiliad, a bod y rhan fwyaf o broblemau o ran y ganolfan alwadau'n ymwneud â galwadau 101, sydd ddim yn alwadau brys. Dywedodd y DBG bod HDP wedi rhoi targed o 45 eiliad i'w hun ar gyfer ateb galwadau 101, fodd bynnag, nid oedd hyn yn ofyniad cenedlaethol. Nodwyd bod nifer o heddluoedd wedi rhoi'r gorau i adrodd ar yr amser mae'n cymryd iddynt ateb galwadau 101 gan nad yw'r galwadau'n cael eu hystyried yn rhai lefel uwch. Dywedodd y DBG nad oedd adroddiad STORM wedi'i greu ar gyfer 50% o alwadau 101 ym mis Ionawr 2019. Dywedodd y DBG bod system fewnol, sef Thrive, wedi'i sefydlu yn y ganolfan alwadau er mwyn sicrhau bod galwad yn cael ei thrin yn syth, yn hytrach na bod galwyr yn cael eu trosglwyddo i swyddogion a staff eraill. Nodwyd hefyd bod galw ychwanegol yn cael ei greu gan unigolion sy'n defnyddio 101 fel switsfwrdd i gael mynediad at adrannau o fewn HDP. Dywedodd y DBG bod gwaith galw'n mynd rhagddo er mwyn adnabod ffyrdd o wella'r gwasanaeth, gyda diwrnod galw wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2019. Nodwyd hefyd bod trinwyr galwadau HDP yn derbyn galwadau ar gyfer heddluoedd megis Heddlu Manceinion Fwyaf a'r Heddlu Metropolitaidd 4 – 5 gwaith y mis er mwyn lleihau'r galw ar yr heddluoedd hynny. Dywedodd EN bod y tîm cyfathrebu'n gweithio er mwyn darparu dulliau eraill o gysylltu â'r ganolfan alwadau, gan gynnwys e-bost, er mwyn lleihau'r galw ar drinwyr galwadau.

Cam Gweithredu: Yr heddlu i roi data i'r CHTh sy'n dangos pa mor aml mae trinwyr galwadau HDP yn derbyn galwadau ar ran heddluoedd eraill, a sut mae hyn yn effeithio ar alw.

Cam Gweithredu: Cyflwyno gweithgarwch galw i'r CHTh mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y 2-3 mis nesaf.

Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â'r amser mae swyddogion yn cymryd i ymateb i alwadau mewn rhannau o Geredigion a Phowys. Dywedodd y PG bod HDP wedi gosod targed i'w hyn, sef cyrraedd lleoliad 90% o alwadau o fewn 20 munud, a'u bod yn cyrraedd 86% yn gyson ar gyfer Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. Nodwyd fod Heddlu Durham, sy'n cael ei gydnabod gan AHGTAEM fel heddlu ardderchog, yn cyrraedd lleoliad 65% o'i alwadau am wasanaeth o fewn 20 munud. Roedd CHTh yn cydnabod ymdrechion cadarnhaol swyddogion HDP i ymateb yn gyflym i bob galwad. Er mwyn sicrhau bod pob galwad, gan gynnwys galwadau am wiriadau lles a diogelwch, yn derbyn ymateb o fewn 20 munud yn yr ardaloedd y soniwyd amdanynt, ychwanegodd y PG y byddai angen lleoli 16 swyddog ychwanegol mewn ardaloedd gwledig, tawel, rhag ofn y byddai galwad yn cael ei gwneud. Awgrymodd yr Athro Ian Roffe y dylid blaenoriaethu galwadau am wiriadau lles a diogelwch ochr yn ochr â galwadau brys. Dywedodd y PG bod galwadau i'r heddlu'n cynnwys

unigolion sy'n poeni nad ydynt wedi gweld cymydog ers ychydig ddyddiau. Nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yn alwadau brys neu'n wiriadau diogelwch a lles, ac maen nhw ond yn arwain at fwy o alw ar blismona yn Nyfed-Powys.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at drosolwg o gam-drin domestig. Canmolodd y CHTH HDP am ei waith ar y pwnc, yn arbennig o ran ystyried argymhellion AHGTAEM ar gyfer ymchwiliadau cam-drin domestig. Dywedodd y DBG bod materion capasiti'n ymwneud â'r gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu, a ddarperir gan y Comisiynydd, gan fod adroddiadau am gam-drin domestig wedi cynyddu. Hefyd, dywedodd y DBG bod galw ar yr Heddlu wedi'i effeithio gan fod nifer y cynadleddau amlasiantaeth asesu risg wedi cynyddu. Nodwyd bod Andrew Edwards (HDP) wedi ceisio grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella isadeiledd o fewn HDP ar gyfer ymchwilio i achosion cam-drin domestig.

Cam Gweithredu: Andrew Edwards i roi gwybodaeth am alw a achosir gan gynnydd yn nifer yr adroddiadau cam-drin domestig i'r CHTH.

Holodd y CHTH pam nad oedd y dioddefydd yn dewis cefnogi'r achos mewn 75% o achosion cam-drin domestig. Trafodwyd bod y dioddefydd mewn achosion o'r fath yn aml yn fodlon â'r canlyniad gan y bu rhyw fath o ymyrraeth yn y sefyllfa, er bod hyn heb arwain at erlyniad.

6 – Perfformiad Ariannol yn ystod Chwarter 1

Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â'r elfen anhysbys i setliadau yn y dyfodol, gan gynnwys y Setliad Dyfarniad Cyflog. Nodwyd bod setliad o 2.5% wedi'i gytuno ar gyfer plismona, a fyddai'n siŵr o gael effaith ychwanegol ar gyllideb 2019/20.

Nododd y CHTH bod y Datganiad o Gyfrifon wedi'i lofnodi'r wythnos flaenorol.

Nododd y Bwrdd bod y Grŵp Aur Cyllid yn gweithio ar y diffyg a ddisgwylir o ran y Cynllun Ariannol Tymor Canolig dros y 4 blynedd nesaf.

7 – Adroddiad dilynol SCHTh gan y Bwrdd Plismona (drwy eithriad)

Symudodd y drafodaeth ymlaen at bwyntiau o ddiddordeb a godwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona yn ystod y 3 mis diwethaf. Nodwyd bod SCHTh wedi gofyn am gyfres o ddiweddariadau ar y materion canlynol:

Moderneiddio'r gweithlu

Roedd y CA wedi rhoi templed i bob un o feysydd busnes HDP sy'n amlinellu ble yr oedd angen i foderneiddio digwydd.

Dadansoddiad rhagamcannol o swyddi secondiad a chydweithredol
Nodwyd bod adroddiadau AD rheolaidd yn cael eu rhoi i'r Bwrdd Plismona yn awr, gyda diweddariadau ynghylch y swyddi.

Fetio

Nododd y DBG nad oedd unrhyw ôl-groniad o fewn yr adran fetio ar hyn o bryd, gyda dim ond cynnydd bach yn nifer y ceisiadau.

Gwerth am Arian Iechyd Galwedigaethol

Nodwyd bod materion capasiti o fewn y Tîm Iechyd Galwedigaethol ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd yr adran wedi'i henwebu ar gyfer gwobr genedlaethol am y tîm iechyd galwedigaethol gorau yn y wlad.

Caniatâd Dioddefwyr

Dywedodd y DBG ei bod hi wedi trafod gweithredu meddalwedd Pronto gydag Irene Davies Jones, a bod diwrnod arddangos wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2019.

Data Arolwg Cam-drin Domestig

Dywedodd y DBG bod adroddiad gan dîm Cam-drin Domestig Heddlu De Cymru wedi ei dderbyn ar 5 Awst, a bod Andrew Edwards o HDP yn mapio prosesau HDP er mwyn sicrhau cyfleoedd dysgu ar gyfer datblygu.

Hyder y cyhoedd yn yr heddlu

Nodwyd bod y PS, y DBG ac EN eisoes wedi cwrdd er mwyn trafod sefydlu Bwrdd Cysylltu Cymunedau er mwyn deall canfyddiad y cyhoedd o'r Heddlu. Nodwyd bod Cylch Gorchwyl wedi'i lunio ar gyfer y Bwrdd, a bod dyddiad ym mis Hydref wedi'i gytuno ar gyfer y cyfarfod cyntaf.

8 – Crynodeb o gamau gweithredu a risgiau o'r cyfarfod

Cytunwyd y byddai camau gweithredu o'r cyfarfod yn cael eu rhannu cyn gynted â phosibl i'w datblygu.

9 – Unrhyw Fusnes Arall

a) Cartref Ar-lein Sengl

Dywedodd y PS fod tîm cyfreithiol HDP yn fodlon ag Adran 22A o'r Cytundeb Cartref Ar-lein Sengl, sydd wedi'i hailysgrifennu.

Penderfyniad: Cytunodd y CHTh a'r PG ar yr aillysgrifeniad arfaethedig o Adran 22A o'r Cytundeb Cartref Ar-lein Sengl.

b) Cyfathrebu â'r Wasg

Dywedodd y CHTh y byddai'n trafod datganiad i'r wasg gydag EN mewn perthynas â'r cyfarfod, gan sôn yn arbennig am newyddion cadarnhaol am ymchwiliadau Cam-drin Domestig HDP, a newyddion negyddol ynghylch hyd rhai ymchwiliadau.

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/08/2019		
Rhif y Cam Gweithredu	Crynodeb o'r Cam Gweithredu	I'w symud yn ei flaen gan:
PAB 126	Yr heddlu i roi data i'r CHTh sy'n dangos pa mor aml mae trinwyr galwadau HDP yn derbyn galwadau ar ran heddluoedd eraill, a sut mae hyn yn effeithio ar alw.	Yr Heddlu
PAB 127	Cyflwyno gweithgarwch galw i'r CHTh mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y 2-3 mis nesaf.	Yr Heddlu/MH
PAB 128	Andrew Edwards i roi gwybodaeth am alw a achosir gan gynnydd yn nifer yr adroddiadau cam-drin domestig i'r CHTh.	AE

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

11:30 – 15:00 18 Tachwedd, Dinbych-y-pysgod